



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym:  
Canllawiau i Awdurdodau Lleol a  
Phartneriaid

Datblygu Cynllun Pontio  
Ailgartrefu Cyflym  
2022 i 2027

Hydref 2021

## Diffiniadau

### Ymyriadau

*Tai yn Gyntaf* – dull a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd wedi'i dargedu at gael yr unigolion hynny sydd â lefelau uchel o anghenion i mewn i lety sefydlog, ynghyd â phhecyn cymorth unigoledig wedi'i deilwra, ar y cyfle cyntaf. Yng Nghymru, datblygodd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf gyfres o ddeg egwyddor yn seiliedig ar yr egwyddorion rhyngwladol. [Tai yn Gyntaf Egwyddorion ar gyfer Cymru - CYM A5.pdf \(cymorthcymru.org.uk\)](#)

*Ymyriadau Cyfnod Allweddol* (CTI) – Dull gweithredu â therfyn amser, sy'n darparu lefel ddwys o gymorth am amser byr, sy'n lleihau'n sylweddol dros amser. Mae'n bosibl mai i'r bobl hynny sy'n gadael sefydliadau'r wladwriaeth fel ysbty neu garchar, ac ati, y bydd fwyaf addas.

*Cymorth fel y bo'r angen* – cymorth sy'n gysylltiedig â thai a roddir i unigolyn yn ei gartref ei hun neu mewn llety gwasgarog (yn hytrach na gwasanaethau a leolir mewn llety lle caiff cymorth ei roi drwy'r llety).

*Allgymorth Grymusol* – cymorth parhaus a gynigir ar y stryd i sicrhau bod pobl sy'n cysgu allan yn pontio i'r cymorth sydd ar gael gyda'r nod yn y pen draw o roi diwedd ar ddigartrefedd.

### Mathau o Lety:

*Llety Dros Dro* – term i gynnwys pob llety a ddarperir pan fydd unigolyn yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd am y tro cyntaf, a all fod dan gytundeb trwydded neu heb fod, ac na fwriedir iddo fod yn ddarpariaeth hirdymor. Nid ystyrir bod arwynebedd llawr yn addas dan unrhyw amgylchiadau.

*Canolfan Brysbennu* - mathau gwell o lety dros dro lle caiff pobl gefnogaeth ar sail fyrdymor wrth i asesiad gael ei gynnal mewn perthynas â'r gofynion priodol o ran llety a chymorth.

Mae Canolfannau Brysbennu yn un o'r amcanion allweddol o hyd a'r egwyddorion allweddol yw bod yn rhaid i Ganolfan Brysbennu lwyddiannus gynnwys y nodweddion canlynol:

- Llety meddiannaeth un person/aelwyd – Dylai fod gan y llety 'en-suite' o leiaf ond, yn ddelfrydol, dylai hefyd gynnwys cegin fach â sinc a microdon. Ar ôl y pandemig, caiff mannau cymunedol a rennir eu hannog hefyd lle y bo'n briodol;
- Cynhwysol – Sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwmpasu pob grŵp (h.y. dynion a menywod, pobl ifanc, y rhai ag anifeiliaid anwes, ac ati). Gall hyn gynnwys adeiladau gwahanol, mynedfeydd neu loriau gwahanol i garfanau gwahanol;
- Ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos – Mae staff ar ddyletswydd yn golygu y gall llety argyfwng fod ar gael bob adeg o'r dydd, bob dydd;

- Dull hyb – Mae'r ganolfan yn darparu ar gyfer dull amlasiantaethol a chydleoli gyda gwasanaethau allweddol megis gwasanaethau iechyd sylfaenol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

*Llety Sefydlog* - llety yn y sector cymdeithasol a'r sector preifat y disgwylir iddo bara o leiaf chwe mis **ac** sydd â'r potensial i fod ar gael cyhyd ag y bydd y tenant yn dymuno hynny.

*Llety â Chymorth ar gyfer pobl ddigartref* – llety a ddarperir ynghyd â chymorth i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl, ond na fwriedir iddo fod yn llety sefydlog.

*Digartrefedd Mynych* – unigolyn/aelwyd sydd wedi cael o leiaf un profiad o ddigartrefedd, ni waeth (a) p'un a oedd dyletswydd yn ddyledus o dan Ddeddf Tai 1996 neu Ddeddf Tai (Cymru) 2014; neu (b) p'un a oedd yr achos wedi'i atal yn llwyddiannus a bod llety dros dro wedi'i osgoi. Nid oes cyfyngiad amser ar yr achos blaenorol o ddigartrefedd.

*Asesiad o'r Farchnad Dai Leol* – ymarfer cynllunio strategol a gynhelir bob pum mlynedd (gydag un diweddariad hefyd yn ystod y cyfnod, tua blwyddyn 2-3) i bennu angen o ran tai, yn ôl ward a math o rentu (h.y., cymdeithasol, canolraddol, marchnad, ac ati).

*Prospectws Awdurdod Lleol* – wedi'i dynnu o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, crynodeb o angen am dai sy'n nodi blaenoriaethau awdurdod o ran tai ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol.

*Cynllun Datblygu Lleol* – mae'n nodi cynigion pob awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnydd o dir yn ei ardal yn y dyfodol.

#### Atal:

*Atal Sylfaenol* – Atal neu leihau'r risg y bydd problemau'n codi, a hynny fel arfer drwy bolisiau cyffredinol, e.e. addysg; hybu iechyd; gwaith rheoli tai da a chymorth tenantiaeth.

*Atal Eilaidd* – Targedu unigolion neu grwpiau sy'n wynebu risg uchel neu'n dangos arwyddion cynnar o broblem benodol er mwyn ceisio ei hatal rhag digwydd, e.e. atgyfeirio'n gynnar at wasanaethau cymorth i deuluoedd neu gymorth ieuenctid.

*Atal Trydyddol* – Ymyrryd pan fydd problem wedi codi er mwyn ei hatal rhag gwaethygu ac unioni'r sefyllfa, e.e. dileu ôl-ddyledion rhent er mwyn osgoi achos o droi allan.

*Gwario Acíwt* – Gwario arian er mwyn rheoli effaith sefyllfa argyfyngus – prin y mae hyn yn gwneud unrhyw beth, os o gwbl, i atal problemau rhag codi eto yn y dyfodol, e.e. cost tai dros dro pan fydd pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref; cost hirdymor cefnogi plant sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod o ganlyniad i golli cartref. Ar ôl trawsnewid, disgwylir y bydd y categori atal hwn yn lleihau o ran dibyniaeth.

*Atal wrth Adfer* – Atal digartrefedd mynych a chysgu allan

## Tudalen Gynnwys

1. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru
2. Beth yw Ailgartrefu Cyflym?
3. Cysoni Anghenion Lleol
4. Gweithio mewn Partneriaeth
5. Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym
  - A. Data ar Ddigartrefedd a dadansoddi angen
  - B. Asesu Anghenion Cymorth
  - C. Deall Llety Lleol Dros Dro
  - D. Cynllunio ar gyfer pontio i Lety Dros Dro
  - E. Datblygu'r Cynllun
  - F. Cynllunio Adnoddau

### Atodiad

1. Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym Enghreifftiol
2. Adnodd pontio (taenlen Excel)

## **1. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Nid yw hyn yn golygu y bydd ein holl ffocws ar roi diwedd ar ddigartrefedd ar frys. Rhaid i atal digartrefedd fod yn brif ffocws i ni o hyd. Rydym am weld camau gweithredu ar gamau Atal Sylfaenol ac Eilaidd (gweler y diffiniadau uchod) er mwyn sicrhau cyfradd llwyddiant uwch mewn perthynas â sicrhau y gall pobl aros yn eu cartrefi eu hunain.

Lle nad yw'r broses atal wedi gweithio, mae Ailgartrefu Cyflym yn hanfodol i leihau effaith ddinistriol digartrefedd a sicrhau na fydd yn digwydd eto. Ni ddylid diystyru buddiannau tai diogel, sefydlog a hunangynhwysol i bobl sydd wedi profi digartrefedd neu sydd wedi wynebu risg o ddigartrefedd. Dylid darparu tai i'r mwyafrif o bobl sydd wedi profi digartrefedd cyn gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn helpu i osgoi'r effeithiau dadsefydlogol ac ymleiddiol sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref am gyfnodau hir neu gyfnodau hir o aros mewn lleoliadau brys neu leoliadau dros dro wrth barhau i fod yn ddigartref.

Mae Ailgartrefu Cyflym yn seiliedig ar ddull systematig o ddeall pa dai sydd eu hangen, sut y caiff y tai hynny eu hariannu, eu datblygu a'u dyrannu i bobl ddigartref. Mae'r dull hwn, pan gaiff ei gymhwyso'n briodol, yn golygu y bydd yr angen am sawl math o lety dros dro yn lleihau, a phan fydd ei angen, bydd hyn am gyfnod byrrach nag ar hyn o bryd.

Gwyddom fod prinder tai mewn sawl rhan o Gymru. Gwyddom hefyd, ni waeth ble rydych yn byw, bod gallu unigolyn neu deulu i gael tai yn dibynnu ar y cyflenwad o dai priodol a'r modd y caiff ei ddyrannu. Yn benodol, y meini prawf y bydd landlord yn eu defnyddio i ddod o hyd i denantiaethau ar gyfer aelwydydd digartref. Bydd Ailgartrefu Cyflym yn ein helpu i leihau'r defnydd o lety dros dro i'r eithaf ac yn gwella mynediad i dai sefydlog cyn gynted ag y bo modd.

### **Partneriaethau**

Er bod Ailgartrefu Cyflym yn amlwg yn rhoi pwyslais ar ddarparu tai fel un o elfennau sylfaenol y broses o adfer ar ôl bod yn ddigartref, nid drwy ddarparu tai yn unig y gellir datrys digartrefedd. Er mwyn i Ailgartrefu Cyflym weithio, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau allweddol fel iechyd a chyfiawnder troseddol. Rhaid i ni hefyd fanteisio ar y trydydd sector a gwirfoddolwyr di-dâl sy'n darparu gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn helpu tenantiaid i fagu hyder a chreu cysylltiadau mewn cymuned. Bydd dulliau partneriaeth yn hanfodol i bontio i Ailgartrefu Cyflym ac i gefnogi'r gwaith cynllunio sydd ei angen i baratoi cynllun pontio. Mae'n hanfodol bod pob awdurdod yn sefydlu grŵp llywio sy'n cynnwys gwasanaethau allweddol a phartneriaid lleol, yn fewnol ac yn allanol, wrth ddatblygu'r cynllun pontio.

### **Cefnogi, Cynllunio, Adeiladu a Thrawsnewid**

Mae pedair thema allweddol cynllun Cam 2 yn parhau, ond nawr gan gadw llygad ar yr angen i bontio i Ailgartrefu Cyflym:

**Cefnogi** – parhau i roi cefnogaeth briodol i bobl sy'n dal i gysgu allan, sydd mewn llety dros dro a'r rheini sydd newydd symud i lety sefydlog.

**Cynllunio** – paratoi cynlluniau pontio clir ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth sy'n nodi sut y byddant yn symud ymlaen tuag at ddarparu modelau mwy cynaliadwy o lety a chymorth sy'n diwallu anghenion pawb sydd mewn darpariaeth argyfwng ar hyn o bryd ac unigolion a fydd yn mynd yn ddirgaref yn y dyfodol.

**Adeiladu** – arloesi, ailfodelu, caffael ac adeiladu llety i wella ansawdd a chynhwysiant llety dros dro a sicrhau bod mwy o lety sefydlog ar gael.

**Trawsnewid** – ymrwymo i gynllun pontio sy'n canolbwyntio ar roi'r gorau i ddefnyddio llety dros dro, a dechrau defnyddio system o asesu anghenion yn gyflym a nodi'r llwybr mwyaf priodol sy'n diwallu anghenion a dymuniadau unigolion. Rhaid i'r cynllun hefyd ystyried y modd y caiff gwasanaethau i bobl sy'n cysgu allan eu hailfodelu i gymell a chefnogi pobl i gymryd y cam i ddefnyddio'r gwasanaethau.

## **Amserlen**

Mae cyhoeddi'r canllawiau hyn yn nodi dechrau'r broses o bontio i Ailgartrefu Cyflym.

1. Hydref 2021 – cyhoeddi'r *Canllawiau ar y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym*
2. Hydref 2021 – ymgynghoriad ar y *Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym*
3. Rhagfyr 2021 – cyflwyno drafft cyntaf *Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai* (yn cynnwys ymarfer asesu anghenion)
4. Diwedd Mawrth 2022 – dechrau gwaith i archwilio newidiadau deddfwriaethol
5. Diwedd Mawrth 2022 – cyflwyno drafft terfynol *Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai*
6. Diwedd Mehefin 2022 – cyflwyno drafft cyntaf y *Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym* a
7. Diwedd Medi 2022 – cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r *Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym*.

## **2. Beth yw Ailgartrefu Cyflym?**

Mae a wnelo Ailgartrefu Cyflym â chymryd dull gweithredu sy'n seiliedig ar dai er mwyn ailgartrefu pobl sy'n wynebu digartrefedd, gan sicrhau eu bod yn cael tai sefydlog cyn gynted ag y bo modd yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnod rhy hir.

Dros y pum mlynedd nesaf rydym yn disgwyl rhoi'r gorau i weld pobl yn gorfod treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro a all fod yn niweidiol o bosibl. Rydym yn disgwyl gweld proses systematig a strategol yn datblygu sy'n cysylltu'r gwaith o ddatblygu, cefnogi a chyflenwi tai â'r angen am dai. Drwy wneud hyn, gellir cynnal prosesau dyrannu a phwyntiau mynediad y sector rhentu preifat sy'n canolbwyntio ar sicrhau tai sefydlog priodol ar gyfer aelwydydd sy'n profi digartrefedd a thargedu cymorth i ddiwallu eu hanghenion.

Atal yw'r ffordd fwyf effeithlon o fynd i'r afael â digartrefedd o hyd a rhaid i hyn barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, ond lle na ellir atal digartrefedd, rydym am sicrhau:


- Gwaith cynllunio systematig i wneud yn siwr bod llety sefydlog ar gael.
- Symud i lety sefydlog, gan fynd i'r afael ag anghenion cymorth ar yr un pryd, yn hytrach na bod hynny'n digwydd wedyn.
- Gwella ansawdd llety dros dro a lleihau'r angen amdano.
- Cynnig pecyn cymorth a chefnogaeth amlasiantaethol, wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol pan fo hynny'n ofynnol.

Dylai Ailgartrefu Cyflym fod yn hyblyg a dylai gydnabod y gall fod gan bobl ddigartref lefelau gwahanol o angen. Mae angen cydnabod, heb fynediad i dai digonol, y gall unigolion wynebu effeithiau andwyol lluosog yn cynnwys: amlygiad i glefydau, tlodi, teimlo'n ynysig, problemau iechyd meddwl, rhagfarn a gwahaniaethu, a bygythiad sylweddol i'w diogelwch personol.

### **Model Llety Ailgartrefu Cyflym**

Mae Ailgartrefu Cyflym yn seiliedig ar yr egwyddorion o symud pobl i lety sefydlog yn gyflym, gyda llety dros dro yn rhan allweddol, ond cyfyngedig yn ddelfrydol, o'r model.

Ar hyn o bryd, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio llwybr ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd a all gynnwys nifer o gamau gwahanol o 'baratoi ar gyfer tenantiaeth'. Fel rhan o'r trawsnewidiad, rhaid i awdurdodau lleol ddechrau symud i fodel nad yw'n cynnwys mwy na dau gam (1) Llety dros dro, a (2) Llety sefydlog a dim ond llety sefydlog yn ddelfrydol os gellir rhoi cymorth yn ddigon gynnar.



Ceir hyblygrwydd o hyd o fewn y ddau gam hyn yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Er enghraifft:

### Cam un – Llety Dros Dro

Mae hyn yn cynnwys darparu Canolfannau Brysbennu, i asesu anghenion unigolion a llety dros dro cynhwysol o ansawdd da. Ein nod yw rhoi'r gorau i ddefnyddio llety dros dro o ansawdd isel ym mhob achos yn y cam pontio, yn cynnwys defnyddio llety gwely a brecwast. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cymryd peth amser o ystyried y galw cynyddol ar ddarpariaeth.

Nid oes unrhyw fwriad i roi cyfyngiad amser ar y cam hwn, ond, lle y bo angen, mae'r pwyslais ar sicrhau aros am gyfnod mor fyr â phosibl er mwyn cynnal asesiad cyn symud i lety sefydlog. Bydd hyd yr arhosiad yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiad ac ar ddewisiadau unigol.

Mae cam un yn cynnwys **holl** ddarpariaeth safle sefydlog a ariennir gan y Grant Cymorth Tai, yr holl Llety â Chymorth, Llochesi Cam-drin Domestig, Canolfannau Adsefydlu Preswyl, at ati.

Mewn achosion prin iawn, gall fod angen i rai pobl gael Llety â Chymorth ar sail hirdymor, ond dylid adolygu hyn yn barhaus ac ni ddylid ei ystyried fel Llety Sefydlog.

### Cam dau – Llety Sefydlog

Mae'r amodau rhyddhau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau yn Neddf Tai (Cymru) 2014 yn pwysleisio chwe mis fel trothwy priodol ar gyfer llety sefydlog. Nid yw hyn yn cynnwys llety â chymorth na thenantiaethau dros dro lle nad oes cyfle iddynt droi yn denantiaethau tymor hwy.

Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cyflwyno contract 'diogel' a 'safonol', a disgwylir y byddai Cam dau yn cynnig un o'r ddau opsiwn contract. Byddai hyn yn




cynnwys darparu contract safonol rhagarweiniol (math o 'contract safonol'). Yn yr un modd â thenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau cychwynol, bydd contract safonol rhagarweiniol fel arfer yn dod yn contract diogel ar ôl y cyfnod rhagarweiniol. Fodd bynnag, ni ddylai contract diogel neu safonol fod yn amodol ar ymddygiad na chyfranogiad yn ystod y cyfnod rhagarweiniol mewn unrhyw achos.

Gellir cynnig llety sefydlog hefyd mewn lleoliad a rennir, yn enwedig ar gyfer pobl iau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid rhannu'r sefyllfa ddiodyn ar gyfer unrhyw grwpiau. Dylid gwneud penderfyniadau fesul achos ac, wrth gwrs, dylid ystyried dewisiadau'r unigolyn.

### **Beth yw'r gydberthynas rhwng Ailgartrefu Cyflym a Tai yn Gyntaf?**

Ystyrir mai Tai yn Gyntaf yw'r ffurf uchaf ei barch o Ailgartrefu Cyflym yn rhyngwladool ac, fel y cyfryw, dylai gyd-fynd â dull gweithredu ehangach Ailgartrefu Cyflym, sydd wedi'i dargedu at y rheini sydd ag anghenion lefel uchel, ynghyd â'r rheini sydd ag anghenion lefel is ond sydd â hanes o denantiaethau aflwyddiannus a/neu brofiadau mynych o gysgu allan.

Fel rhan o drawsnewid i ddull gweithredu Ailgartrefu Cyflym, gofynnwn i bob awdurdod lleol fuddsoddi mewn gwasaneth Tai yn Gyntaf er mwyn cefnogi anghenion y rheini y nodwyd bod ganddynt anghenion lefel uchel. Fodd bynnag, nid ydym yn erbyn modelau amgen sy'n seiliedig ar dai sy'n galluogi pobl i symud yn gyflymach allan o lety dros dro ac i mewn i lety sefydlog. Gall hyn gynnwys darparu datrysiad dros dro amgen os bydd hynny'n fwy priodol ar gyfer anghenion yr unigolyn (h.y., gwlyb, sych, darpariaeth i bobl ifanc, ac ati.).



Mae dewis personol yn hollbwysig yn Tai yn Gyntaf ac Ailgartrefu Cyflym ac os bydd rhywun yn mynegi y byddai'n hoffi cael ei leoli mewn lleoliad a rennir, boed hynny'n denantiaeth a rennir, yn eiddo amfuddiannaeth neu hyd yn oed yn brosiect â chymorth, yna dylid ystyried hynny a'i gefnogi o bosibl.


### 3. Sicrhau bod y cyflenwad o dai yn cyd-fynd ag anghenion lleol

Cyn cyflwyno Ailgartrefu Cyflym mae angen sicrhau bod trefniadau cynllunio ar waith i sicrhau: (a) bod digon o lety diogel a fforddiadwy ar gael; a (b) bod digon o'r cymorth cywir ar gael i helpu pobl i sicrhau a chynnal llety sefydlog. Mae'n holl bwysig bod cynlluniau pontio yn cael eu hadeiladu ar ddata dibynadwy a chynhwysfawr.

Mae hyn yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddeall anghenion ymarfer asesu yn ogystal ag adnodd Excel y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a ddatblygwyd er mwyn gwella dealltwriaeth o wybodaeth am alw presennol a thueddiadau posibl.

Mae data craidd yn hanfodol a dylid ei gasglu yn:

1. Asesiad yr awdurdod lleol o'r Farchnad Dai Leol, prospectws Awdurdodau Lleol (Rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol) a Chynlluniau Datblygu Lleol,
2. Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, a'r
3. Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym.



#### Rhaglenni Adeiladu ag Arian Cyfalaf:

Er mwyn i Ailgartrefu Cyflym weithio, rhaid cael mynediad priodol i dai ac felly mae'n hollbwysig bod pob awdurdod lleol yn gwneud yn siwr bod cysondeb rhwng data ar ddigartrefedd a rhaglenni adeiladu ag arian cyfalaf parhaus yn ogystal â thimau mynediad y sector rhentu preifat ym mhob awdurdod.

Fel rhan o broses y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai, bydd disgwyl i bob awdurdod lleol gynnal ymarferion asesu anghenion rheolaidd a bydd yr ymarfer hwn yn hanfodol wrth gefnogi'r broses o gynllunio'r pontio i Ailgartrefu Cyflym o ran yr ymarfer sylfaenol hwn, ac mewn perthynas â'r gwaith parhaus o fonitro'r cynllun.

Cynghorir pob awdurdod lleol yn gryf i sicrhau bod cysondeb rhwng y data a gaiff ei gaffael fel rhan o'r asesiad parhaus o anghenion a'r broses o ddatblygu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Prosbectws y Grant Tai Cymdeithasol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn benodol, rydym yn argymhell yn gryf y dylai'r aelwydydd ag 'angen presennol na chaiff ei ddiwallu' sy'n ymddangos yn nhabl yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol gael eu cysylltu'n uniongyrchol â'r data ar ddiartrefedd a gesglir gan awdurdodau lleol.


#### 4. Gweithio mewn partneriaeth

Mae digartrefedd yn fwy na dim ond problem tai ac ni fydd Ailgartrefu Cyflym yn llwyddo oni fydd cysondeb gweithredol llawn rhwng swyddogaeth tai strategol awdurdodau, rhaglen adeiladu ag arian cyfalaf, gwasanaethau comisiynu'r Grant Cymorth Tai a'r gwasanaethau digartrefedd statudol. Er mwyn i unrhyw wasanaeth digartrefedd fod yn effeithiol, bydd angen i lawer o bobl ddigartref gael cymorth gan amrywiaeth o bartneriaid gwahanol yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a gofal cymdeithasol.

Hefyd, er mwyn i Ailgartrefu Cyflym weithio, rhaid sicrhau prosesau ymgysylltu effeithiol o fewn yr awdurdod lleol mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau cymorth, yn cynnwys y Grant Cymorth Tai, a chynllunio rhaglenni adeiladu ag arian cyfalaf; a dylid cefnogi hyn y tu allan i'r awdurdod lleol o ran ymgysylltu â'r sector landlordiaid cymdeithasol a'r sector landlordiaid preifat ac asiantaethau cymorth.

##### Grwpiau Partneriaeth Ailgartrefu Cyflym

Dylai awdurdodau lleol ystyried datblygu cydberthnasau gweithio a chynllunio cadarnhaol a chydweithredol â phartneriaid allweddol fel



darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a thai a'r sector cyfiawnder troseddol er mwyn datblygu cynllun sy'n addas at y diben, darparu adnoddau ar ei gyfer a'i roi ar waith. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys dealltwriaeth a rennir o lwybrau atgyfeirio a dealltwriaeth a rennir o feini prawf cymhwysedd gwasanaethau.

Dylai'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ddisgrifio'r modd y mae'r grwpiau partneriaeth hyn wedi cydweithio i ddatblygu'r Cynllun a nodi ble y mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at gyfrannu adnoddau neu alw am adnoddau.

Bydd darparwyr cymorth tai a digartrefedd yn y trydydd sector yn bartneriaid hanfodol wrth bontio i ailgartrefu cyflym. Bydd eu gallu i feithrin perthynas o ymddiriedaeth â phobl sydd wedi cael profiad negyddol o'r blaen, a oedd efallai hyd yn oed wedi'u methu gan y system, yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau, a dylid defnyddio eu profiad a'u harbenigedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch addasu gwasanaethau.

Yn ogystal â'r partneriaid lleol allweddol, dylai'r grwpiau partneriaeth gynnwys gweithwyr llinell flaen yn ogystal â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

##### Comisiynu cymorth

Mae Pennod 7 o'r Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020)<sup>1</sup> yn nodi'r manylion y bydd angen eu dilyn mewn perthynas ag arferion comisiynu'r Grant Cymorth Tai.

---

<sup>1</sup> [Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai \(llyw.cymru\)](#)

## **Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym**

Dogfen gynllunio yw'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym gyda'r nod o gefnogi awdurdodau lleol i bontio i fodel Ailgartrefu Cyflym o wasanaethau digartrefedd.

Ei brif ddiben yw llunio cynllun sy'n nodi'r modd y bydd pob awdurdod lleol yn diwygio'r gofynion cyflenwad a chymorth er mwyn cyd-fynd â dull gweithredu Ailgartrefu Cyflym.

Rydym yn deall y bydd angen llai o newid ar rai ardaloedd o gymharu ag ardaloedd eraill, ond rhaid i bob cynllun ddarparu dadansoddiad manwl wedi'i gostio dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae'n hanfodol y caiff y Cynllun Pontio cychwynnol hwn ei ddatblygu fel dogfen gorfforaethol. Yn ogystal â sicrhau bod swyddogaethau statudol eraill awdurdodau, fel gofal cymdeithasol, yn cael eu cynnwys, rhaid sicrhau cydweithrediad rhwng y tîm strategol, timau'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartrefedd er mwyn cyflwyno cynllun sy'n cyflawni nodau'r broses o drawsnewid Ailgartrefu Cyflym. Felly, rydym yn disgwyl gweld Ailgartrefu Cyflym yn cael ei gynnwys yn Strategaethau y Rhaglen Cymorth Tai awdurdodau lleol y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Hefyd, mae angen i bob awdurdod lleol ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar y cyd â phartneriaid lleol, yn benodol Byrddau Cynllunio Ardal, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, darparwyr cymorth y grant Cymorth Tai a phartneriaid lleol perthnasol ehangach.

Bydd angen i bob cynllun nodi'r chwe thema allweddol canlynol:

- A. Data ar Ddigartrefedd a dadansoddi angen
- B. Asesu anghenion cymorth
- C. Deall y cyflenwad o lety dros dro lleol
- D. Cynllunio ar gyfer trawsnewid Llety Dros Dro
- E. Datblygu'r Cynllun Pontio
- F. Cynllunio'r cyflenwad tai ac adnoddau ehangach ar gyfer y dyfodol

## A). Data ar ddigartrefedd a dadansoddi angen

Wrth gynllunio i bontio i Ailgartrefu Cyflym, mae'n hanfodol y cynhelir dadansoddiad er mwyn sicrhau safbwynt clir ar anghenion y bobl sydd angen cymorth digartrefedd. Yn ogystal â'r ymarfer pontio hwn, mae bellach yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal ymarfer Asesu'r Farchnad Dai Leol drwy broses ar wahân. Cynlluniwyd yr adnodd Excel cysylltiedig i gefnogi'r broses o nodi'r bwloch rhwng yr angen am dai, y galw am dai a'r cyflenwad o dai, ac yn benodol i gefnogi'r broses o nodi 'Angen Presennol am Dai sydd Heb ei Ddiwallu' y mae'n rhaid iddo hysbysu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

Mae'r adnodd yn rhoi mwy o fanylion, ond i ddilyn ceir blas ar yr hyn y dylid ei gasglu ac mae'n canolbwyntio ar ddata a gasglwyd eisoes fel rhan o brosesau sy'n bodoli eisoes i gasglu data:

- *Gwybodaeth ar ddigartrefedd, yn cynnwys yn ôl y ffactorau canlynol:*
  - *gwybodaeth ddemograffig;*
  - *math o aelwyd;*
  - *achos digartrefedd;*
  - *deiliadaeth llety cyn mynd yn ddigartref;*
  - *cyfradd mynychder digartrefedd;*
  - *Defnydd o lety dros dro;*
- *Gwybodaeth am ganlyniadau, yn cynnwys y canlynol:*
  - *Llwyddiannus/aflwyddiannus yn ôl pob dyletswydd*
  - *Gwybodaeth am ryddhau o ddeiliadaeth – Sector Rhentu Preifat/Cymdeithasol, ac ati.*
  - *Manylion canlyniadau aflwyddiannus, yn ôl pob dyletswydd o fwriadoldeb, colli cysylltiad, methu cydweithredu ac ati*
  - *Gwybodaeth am gysylltiadau lleol*
- *Gwybodaeth am bobl sy'n cysgu allan*
- *Gwybodaeth am isafswm, uchafswm a chyfartaledd hyd achosion, yn ôl demograffeg a mathau o aelwydydd fel a ganlyn:*
  - *S66 – cadarnhaol*
  - *S66 – aflwyddiannus*
  - *S73 – cadarnhaol*
  - *S73 – aflwyddiannus*
  - *S75 – cadarnhaol*
  - *S75 – aflwyddiannus*
- *Hyd cyfartalog yr arhosiad mewn llety dro, yn ôl demograffeg a mathau o aelwydydd*

Dylai'r wybodaeth hon helpu'r awdurdod lleol i ddeall nifer y bobl sy'n llifo drwy lety dros dro a'r bwloch presennol a'r bwloch a ragwelir rhwng galw a chyflenwad dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn bwysig iawn os bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn deall y prinder tai o ran llety i unigolion ac i deuluoedd. Disgwyliwn i'r cyfrifiad hwn fod yn ffactor allweddol wrth gynllunio'r cynllun pontio ac felly, dylid ei esbonio'n glir.

### *Dadansoddi tueddiadau:*

Rydym yn cydnabod y bydd casglu gwybodaeth am dueddiadau yn anodd o ystyried y gwahaniaethau sylweddol rhwng achosion o ddigartrefedd yn ystod y pandemig o gymharu â chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae hefyd yn briodol tybio bod nifer yr achosion o ddigartrefedd yn ystod y pandemig yn ddangosydd mwy cywir o'r boblogaeth ddigartref gyfan o gymharu â chyn y pandemig.

Er mwyn caffael gwybodaeth am dueddiadau, dylid cyfrifo'r cyfartaledd o bedwar mis nad ydynt yn olynol er mwyn goresgyn yr amrywiadau a welwyd o ganlyniad i ddiwedd y cyfnodau o gyfyngiadau symud. Argymhellir y dylid casglu data o fis Mai a mis Hydref 2020 a mis Chwefror a mis Mehefin 2021, er mwyn cael ymdeimlad o'r tueddiadau posibl yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ac anghenion asesu'r rheini sy'n ddigartref.



## B). Asesu Anghenion Cymorth

Er mwyn cynllunio'r broses bontio, mae'n bwysig cynnal asesiad eang a systematig o angen er mwyn casglu gwybodaeth gywir. Yn benodol, mae angen dau beth:

- Dadansoddiad o'r niferoedd ym mhob un o'r pedwar categori; a
- Amcangyfrif o'r cymarebau o achosion o ddigartrefedd sy'n debygol bob blwyddyn yn y dyfodol.

Rhaid sicrhau bod yr ymarfer hwn yn cyd-fynd â'r broses o ddatblygu Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (a ddisgwylir ym mis Ebrill 2022), a dylid ei adolygu ar ôl dwy flynedd. Rydym yn argymhell y dylid adolygu'r ymarfer hwn yn barhaus er mwyn gwneud unrhyw addasiadau i'r Cynllun Pontio cyn gynted ag y bo modd.

Hefyd, rydym am gadarnhau bod asesiadau a gynhelir ochr yn ochr â'r partneriaid hynny sy'n rhoi cymorth arbenigol, fel iechyd a gofal cymdeithasol, yn fwy cywir a chyson ar gyfer y rheini sydd angen gwasanaethu cymorth.

### Grwpiau Cymorth:

Er mwyn sicrhau lefel o gysondeb, rydym yn argymhell bod unigolion yn cael eu categoreiddio mewn pedair carfan:

- *Anghenion Lefel Isel* – yn debygol o fod yn gyfran sylweddol nad oes ganddynt lawer o ofynion cymorth lefel isel os o gwbl ac y gellir eu cefnogi i mewn i lety sefydlog gyda lefel isel o gymorth neu drwy gyfeirio yn unig o bosibl.
- *Anghenion Lefel Ganolig* - ynghyd ag Anghenion Lefel Isel, yn debygol o gynnwys y mwyafrif a fydd angen gwasanaeth Ailgartrefu Cyflym gyda chymorth dros dro fel y bo'r angen. Gall fod angen cymorth arnynt hefyd gan wasanaethau proffesiynol eraill er mwyn byw'n annibynnol mewn llety sefydlog.
- *Anghenion Lefel Uchel* - yn y categori hwn y byddem yn disgwyl gweld y rheini sydd ag anghenion cymhleth cyson a/neu hanes o gysgu allan mynych ac y dylid cynnig math o gymorth Tai yn Gyntaf neu ymyriad dwys sy'n seiliedig ar dai iddynt yn ddiodyn.
- *Anghenion Dwys (gofynion cymorth 24/7 o bosibl)* - dylai'r rhain gynnwys y rheini na allant fyw yn annibynnol, efallai oherwydd pryderon ynghylch risg i'w hunain neu i eraill neu ddewis hyd yn oed. Rydym yn disgwyl y byddai pobl broffesiynol o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod eu gofal a'u cymorth yn addas at y diben. Lle nodir bod rhywun yn y categori Anghenion Dwys, rhaid parhau â'r cymhelliant i'w symud i lety sefydlog.

### Gofynion Cymorth:

Gellir defnyddio pedwar maes cymorth cyffredinol i lywio asesiadau a chanolbwyntio cyngor a chymorth ar gyfer pobl er mwyn eu helpu i symud ymlaen a chynnal eu llety yn y tymor hwy:

- *Ymarferol* – yn cynnwys cymorth i sefydlu cyfleustodau, cael dodrefn a pheccynnau nwyddau gwyn, gwneud ceisiadau am fudd-daliadau a chyllidebu yn ogystal â chymorth cyffredinol i gynnal tenantiaethau, ac ati.

- *Penodol/arbenigwyr* – yn cynnwys diwallu anghenion o ran iechyd corfforol (yn cynnwys cofrestru â meddyg teulu), anghenion o ran iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, anghenion o ran cyffuriau ac alcohol yn ogystal â helpu rhywun i ymdopi â phroblemau unigedd ac os oes ganddo anawsterau dysgu neu anawsterau iaith.
- *Ymgysylltu* – y cymorth sydd ei angen i ymgysylltu â phobl, yn cynnwys gofynion allgymorth grymusol.
- *Sefydlogi* – y cymorth sydd ei angen i gynnal llety presennol, yn cynnwys llety dros dro.
- *Symud ymlaen* – yn cynnwys helpu pobl i ddatblygu dysgu a sgiliau ychwanegol, cael gwaith o bosibl neu wirfoddoli.

### Gofynion o ran Tai/Llety:

Yn ogystal â chymorth, rhaid ystyried gofynion o ran tai hefyd – bydd y rhain hefyd yn dylanwadu ar lefel y cymorth sydd ei angen:

- *Lleoliad* - i gynnwys ardal ddewisol yr unigolyn (yn cynnwys agosrwydd i addoldai, teulu, ffindiau a chymorth cymunedol) ond hefyd i gynnwys ystyriaeth o fforddiadwyedd, trafndiaeth, cyfleusterau lleol a chyfleusterau cymunedol ac arbenigol, ac ati.
- *Deiliadaeth* – yn seiliedig ar y stoc sydd ar gael yn yr ardal ddewisol.
- *Fforddiadwyedd* – p'un a ellir fforddio talu costau'r llety, ond mae hefyd yn cynnwys pennu ffynonellau incwm.
- *Maint* – h.y., llety sengl, llety teuluol, llety a rennir.
- *Hygyrchedd* – yng nghyd-destun a yw unigolyn yn anabl a/neu a oes ganddo ofynion mynediad

Bydd angen ystyried materion ehangach, nad ydynt yn ymwneud â stoc tai yn unig ond a fydd yn effeithio ar allu pobl i fanteisio ar dai cymdeithasol. Er enghraifft:

- *Cyfarpar* – yn cynnwys eitemau fel sugnwyr llwch, dillad gwely, carpedi a llenni ac ati. Mae angen ystyried yr amserlenni sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth.
- *Materion eraill sy'n bwysig i'r unigolyn* – e.e. a ganiateir anifeiliaid anwes lle y bo'n berthnasol

Bydd yr Adnodd Pontio yn Excel yn rhoi rhagor o fanylion, ond y disgwyliad yw y caiff y tabl canlynol ei gwblhau a'i gynnwys yn y Cynllun Pontio.

<b>Grŵp Cymorth</b>	<b>Tai a Argymhellir</b>	<b>Cymorth a Argymhellir</b>	<b>Nifer yr achosion ar hyn o bryd (yn cynnwys %)</b>	<b>Tueddiadau a ragwelir (yn cynnwys %)</b>
Isel/Dim	Tai prif ffrwd	Cymorth unigol		
Canolig	Tai prif ffrwd	Unigryw, yn debygol o gynnwys cymorth amlasiantaethol		

Uchel	Tai prif ffrwd	Tai yn Gyntaf/cymorth dwys fel y bo'r angen, yn cynnwys cymorth amlasiantaethol		
Anghenion Dwys (24/7)	Tai â Chymorth	Cymorth preswyl		

### **C). Deall y cyflenwad o lety dros dro lleol**

Nod yr adran hon yw cefnogi'r ddealltwriaeth leol o raddau ac ansawdd y llety dros dro yn ardal pob awdurdod.

Er mwyn sicrhau cysondeb, caiff diffiniadau o lety dros dro eu cynnwys uchod ac rydym yn disgwyl y gall pob Cynllun Pontio roi cyfanswm cywir o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pob un o'r lleoliadau canlynol:

- Canolfan Brysbennu
- Llety Dros Dro
- Llety â Chymorth
- Arall (yn cynnwys llety gwely a brecwast lle cafodd ei ddefnyddio *cyn* y pandemig, llety 'symud ymlaen', lloches cam-drin domestig, ac ati).

Rhaid i'r wybodaeth sylfaenol hon gynnwys pob darpariaeth llety a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol ynghyd â gwybodaeth am y canlynol:

- Galluedd
- Nifer yr aelwydydd sy'n byw yn y llety ar 31 Mawrth 2022 a llif net i mewn/allan yn ystod y flwyddyn
- Math o aelwydydd
- Lefel y cymorth a ddarperir
- Hyd arhosiad cyfartalog (ar gyfer 2020/21 a 2019/20) ym mhob lleoliad
- Taliadau wythnosol i'r unigolyn, yn cynnwys pob taliad rhent a thaliad gwasanaeth
- Cost i'r awdurdod

#### Sut?

Mae'r Adnodd Excel atodedig yn rhoi mwy o fanylion mewn perthynas â chaffael y wybodaeth. Dylai swyddogion hefyd sicrhau bod y data yn gyson ag ymarfer yr Aseiad o'r Farchnad Dai Leol a gynhelir ar yr un pryd.

## D). Cynllunio ar gyfer trawsnewid Llety Dros Dro

Cyn y gall awdurdodau lleol ddechrau cynllunio proses drawsnewid, yn gyntaf, rhaid pennu'r diffiniadau mewn perthynas â'r safonau. Mae'n amlwg bod yn rhaid i'r llety dros dro a ddarperir yn y dyfodol gyrraedd safonau Atodiad D o leiaf fel y nodwyd yn gyntaf yng nghanllawiau Cam 2 a rhaid iddo sicrhau urddas a pharch i'r trigolion. Yn y bôn, mae hyn yn golygu parhau â darpariaeth en suite a rhoi diwedd ar y defnydd o lefydd ar lawr a 'phodiau' o ansawdd isel. Yn ystod y cam pontio, rydym yn disgwyl y cynhelir ymarfer ymgynghori mewn perthynas â safonau hirdymor ar gyfer llety dros dro i bobl ddigartref y mae'n debygol y bydd yn ystyried y disgwyliadau o ran safon llety dros dro a llety sefydlog yn y dyfodol.

### Defnyddio llety at ddiben arall

Un ystyriaeth allweddol mewn perthynas â'r broses bontio yw defnyddio llety at ddiben arall. Gallai hyn olygu ailfodelu llety argyfwng yn Ganolfannau Brysbennu o ansawdd gwell (gweler y diffiniadau) neu ailfodelu neu 'wrth-droi' llety dros dro (fel llety 'symud ymlaen', 'cam i fyny' neu 'gam i lawr') yn llety sefydlog ac i'r gwrthwyneb hyd yn oed lle mae'r angen wedi'i nodi'n glir. Rhaid i awdurdodau lleol gynllunio yn seiliedig ar alw (yn cynnwys hyd arhosiad cyfartalog), cyflenwad presennol a chyflenwad yn y dyfodol.

Ni fydd llawer o'r unedau llety argyfwng mynediad uniongyrchol ledled Cymru yn bodloni'r gofynion a nodir uchod. O ganlyniad i arian Cam 2, mae rhai awdurdodau wedi gallu datblygu Canolfannau Brysbennu. Rydym yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol fuddsoddi mewn digon o ddarpariaeth Canolfannau Brysbennu byrdymor yn ei ardal, ond nid oes rhaid lleoli hyn i gyd mewn un uned. Rydym yn argymhell safleoedd llai, ond yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl mewn rhai ardaloedd oherwydd yr opsiynau sydd ar gael neu fforddiadwyedd ariannol.

### Sut?

Mae angen i'r Cynllun Pontio esbonio'r modd y dylai'r broses drawsnewid ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd a nodwyd yn flaenorol. Dylai'r cynllun gael ei gefnogi gan y data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd uchod.

Mae'r adnodd Excel atodedig yn sicrhau y gellir casglu'r wybodaeth, ond dylai ddangos gostyngiad yn y cyfnod cyfartalog o amser a dreulir mewn llety argyfwng neu dros dro.

## E). Datblygu'r Cynllun

Dylai'r Cynllun Pontio nodi'n glir ac yn gryno y camau sy'n ofynnol i symud allan o'r model gwasanaeth presennol i ddull Ailgartrefu Cyflym, yn cynnwys sicrhau bod stoc priodol o dai wedi'i gynllunio yn y datblygiadau arfaethedig i gyfrif am nifer y bobl ddigartref.

Rhaid i'r Cynllun Pontio hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth, fel bod y disgwyliad a nodwyd gan y canllawiau yn y penodau blaenorol i'w weld yn y fersiwn derfynol.

Rydym yn argymhell bod y Cynllun Pontio yn cael ei strwythuro fel yn Atodiad 1, gan nodi ymatebion yn glir i'r pwyntiau allweddol sylfaenol canlynol:

- *Cymorth* – sut y bydd y cymorth cywir ar gael i'r bobl gywir ar yr adeg gywir? Gallai hyn gynnwys cyfrifiadau ynghylch datblygu digon o gymorth i'r Grŵp Cymorth Anghenion Lefel Uchel, yn cynnwys darparu Tai yn Gyntaf neu ddull dwys sy'n seiliedig ar dai.
- *Cyflenwad a Thrawsnewid* – pa brinder cyflenwad a geir a sut yr eir i'r afael â hyn erbyn diwedd y cam pontio pum mlynedd er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwad i ddiwallu anghenion llety dros dro a llety sefydlog? Yn cynnwys defnydd o gyllid cyfalaf, ond mae hefyd yn cynnwys nodi cartrefi gwag, achosion o adbrynu, adnewyddu, caffael, mynediad gwell i'r sector rhentu preifat, ac ati.
- *Dyraniadau* – a yw landlordiaid a thimau dyrannu tai yn barod i fynd i'r afael â nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro? Gallai hyn gynnwys modelu'r modd y gall cynyddu cyflymder dyraniadau effeithio ar y niferoedd sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd.
- *Atal* – a oes dealltwriaeth o'r cyfyngiad ar weithgarwch atal presennol ac a gaiff y gwaith ehangu i ddarparu gwasanaethau atal sylfaenol ac eilaidd ei wneud?
- *Model llety* – yn cynnwys amlinelliad o'r llwybrau i lety sefydlog a ragwelir ar ôl y trawsnewid, yn cynnwys y mathau gwahanol o lety ac yn cynnwys y modd y caiff gofynion cymorth eu cynnwys.
- *Cynyddu effeithlonrwydd* – Gallai hyn gynnwys cynigion ynghylch gwaith monitro a phennu targedau i leihau'r amser a gaiff ei dreulio mewn llety dros dro dros y cam pontio pum mlynedd yn ogystal â gwella mentrau cyfnewid tenantiaeth sy'n sicrhau bod aelwydydd yn cael eu cartrefu mewn tai sy'n briodol i'w hanghenion.
- *Ymgysylltu* – Gallai gweithgareddau perthnasol i gofnodi amlinellu'r modd y cynhelir trafodaethau polisi allweddol i sicrhau cysondeb â phartneriaid lleol er mwyn sicrhau bod y Protocol Ailgartrefu Cyflym a ddatblygir yn cyflawni'r nodau fel yr amlinellir uchod. Mae hyn yn cynnwys newidiadau posibl i bolisiau dyrannu lleol ac ati.
- *Staffio* – Ystyried cynnwys cynllun manwl o'r modd y caiff timau eu haddasu i gyd-fynd â gwasanaeth y model newydd, yn cynnwys ystyriaethau ynghylch hyfforddiant, ac ati.
- *Ymateb i'r pandemig* - ffocws ar effaith y Pandemig a'r angen i barhau i gefnogi pobl allan o lety dros dro a'r effaith ar wybodaeth am dueddiadau ar ôl y pandemig.
- *Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol/yr Effaith ar Gydraddoldeb* – ystyried effeithiau ehangach y cam pontio

## F). Cynllunio Adnoddau

Bydd yr Adnodd Pontio yn Excel yn darparu'r llwyfan i allu nodi'r gofynion o ran adnoddau dros y cyfnod pum mlynedd er mwyn cyflwyno Ailgartrefu Cyflym yn llawn.

Er bod trawsnewid Ailgartrefu Cyflym a'r ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, nid yw cyllidebau refeniw a chyfalaf hirdymor yn hysbys ar hyn o bryd. At ddiben datblygu Cynllun Pontio, dylai awdurdodau lleol ddefnyddio cyllidebau presennol ar gyfer pob blwyddyn o'r cyfnod pontio. Fodd bynnag, dylid ystyried amrywiadau posibl yn lefelau'r cyllid yn ystod y cyfnod pontio a chynllunio yn unol â hynny. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gostyngiadau mewn cyllid refeniw yn ogystal â chynnydd mewn cyllid cyfalaf, yn cynnwys cynnydd posibl ar ddiwedd y flwyddyn mewn dyraniadau.

Dros y 12 mis nesaf, cynhelir gwerthusiad pellach i ddeall y modd y bydd y model Ailgartrefu Cyflym yn gweithio o fewn cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, er ei fod yn ddrutach ar y dechrau, deallir yn gyffredinol bod gan y model o symud pobl yn gyflym drwy lety dros dro i lety sefydlog fanteision hirdymor o safbwynt arbed costau a'r disgwyliadau y gellir cyflawni'r broses o symud i Ailgartrefu Cyflym ar sail niwtral o ran costau yn yr hirdymor.

Y pwyntiau allweddol y mae'n ofynnol eu cwmpasu gan y cynllun yw'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r broses drawsnewid mewn perthynas â'r canlynol:

- Ailgynllunio gwasanaethau statudol, yn cynnwys staff craidd;
- Trawsnewid y cyflenwad o dai a'r tai a ddyrennir, yn cynnwys defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol;
- Trawsnewid gwariant drwy'r Grant Cymorth Tai; a
- Chostau rhedeg unedau llety, yn cynnwys modelau hyfywedd ariannol.

Ailgartrefu Cyflym  
Cynllun Pontio  
Ebrill 2022 – Mawrth 2027

Templed



## **Adran 1 – Cyflwyniad/Cyd-destun/Gweledigaeth**

1.1. – cyflwyniad – *rhoi cyd-destun i nodi'n amlwg amcanion yr awdurdod lleol yn ystod y cam pontio.*

1.2 – gweledigaeth – *amlinellu'r weledigaeth ar gyfer Ailgartrefu Cyflym*

1.3 – llywodraethu – *esbonio'r modd y mae'r cam pontio yn cyd-fynd â strwythur yr Adran Dai ynghyd â'r gwasanaethau ehangach a ddarperir gan awdurdodau lleol a phartneriaid lleol (fel drwy ffeithlun).*

*Cyfeirio at unrhyw fwrdd prosiect sy'n goruchwylio'r broses o ddatblygu'r cynllun a'r broses drawsnewid.*

1.4 – ymgysylltu – *esbonio i ba raddau y mae partneriaid wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r cynllun, yn cynnwys gwasanaethau eraill yn yr awdurdod lleol, darparwyr tai, y trydydd sector a staff y gwasanaeth digartrefedd.*

## **Adran 2 – Data ar ddigartrefedd a dadansoddi angen**

2.1 – cyd-destun – cynnwys gwybodaeth gefndir ar dueddiadau'r boblogaeth, iechyd ac unrhyw ffactorau economaidd perthnasol (h.y., ôl-ddiwydiannol, dinas, twristiaeth, ac ati), dadansoddi'r boblogaeth, y cyflenwad o dai (cymdeithasol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a pherchen-feddiannwyr, lefelau rhent, gosodiadau cyfartalog gan bartneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac incwm ac enillion ac ati. Sicrhau y caiff testun naratif ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw dablau i roi esboniad a chyd-destun ychwanegol.

2.2. – cyflwyniadau – cyflwyno data ar ffurf tabl er mwyn amlinellu'r galw yn lleol a chynnwys adran naratif i esbonio canfyddiadau'r data, yn cynnwys cyfeirio at newidiadau dros amser.

- Gwybodaeth ar ddigartrefedd, yn cynnwys yn ôl y ffactorau canlynol:
  - gwybodaeth ddemograffig;
  - math o aelwyd;
  - achos digartrefedd;
  - deiliadaeth llety cyn mynd yn ddigartref;
  - cyfradd mynychder digartrefedd;
  - Defnydd o lety dros dro;
- Gwybodaeth am ganlyniadau, yn cynnwys y canlynol:
  - Llwyddiannus/aflwyddiannus yn ôl pob dyletswydd
  - Gwybodaeth am ryddhau o ddeiliadaeth – Sector Rhentu Preifat/Cymdeithasol, ac ati.
  - Manylion canlyniadau aflwyddiannus, yn ôl pob dyletswydd o fwriadoldeb, colli cysylltiad, methu cydweithredu ac ati
  - Gwybodaeth am gysylltiadau lleol
- Gwybodaeth am bobl sy'n cysgu allan
- Gwybodaeth am isafswm, uchafswm a chyfartaledd hyd achosion, yn ôl demograffeg a mathau o aelwydydd fel a ganlyn:
  - S66 – cadarnhaol
  - S66 – aflwyddiannus
  - S73 – cadarnhaol
  - S73 – aflwyddiannus
  - S75 – cadarnhaol
  - S75 – aflwyddiannus
- Hyd cyfartalog yr arhosiad mewn llety dro, yn ôl demograffeg a mathau o aelwydydd

Cynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer y grwpiau canlynol pan fydd ar gael:

- Digartrefedd leuenctid
- Ffoi rhag cam-drin domestig
- Pobl sy'n gadael y carchar
- Grwpiau lleiafrifol (yn cynnwys y rheini a gaiff eu cefnogi ar ôl iddynt gwblhau'r broses o ddod o hyd i Loches)
- Unigolion sy'n gadael gofal

- *Cyn-filwyr*
- *Gwladolion yr UE*
- *HEB FOD Â'R HAWL I GYLLID CYHOEDDUS*

*Cynnwys adran naratif ar gysylltiadau lleol mewn perthynas â nifer y cyfeiriadau ffurfiol.*

*2.3 - asesiad o'r farchnad dai leol - cysylltu hyn â'r broses o barhau i gynnal yr ymarfer i Asesu'r Farchnad Dai Leol, fel sy'n briodol, lle nodwyd bylchau yn y cyflenwad.*

*2.4 – casgliad – crynhoi'r adran a disgrifio'r galw a ragwelir ar draws yr holl wybodaeth ddemograffig, math o aelwydydd, achos tebygol digartrefedd a nifer y bobl ddigartref a ragwelir o grwpiau allweddol 'sy'n wynebu risg'.*

### Adran 3 – Asesu Anghenion Cymorth

3.1 – cyd-destun – esbonio'r modd y cynhaliwyd yr ymarfer asesu anghenion, yn cynnwys mewnbwn a chymorth gan bartneriaid.

3.2 – niferoedd – amlinellu canlyniadau'r ymarfer asesu anghenion, yn cynnwys cwblhau'r tabl allweddol canlynol:

<b>Grŵp Cymorth</b>	<b>Tai a Argymhellir</b>	<b>Cymorth a Argymhellir</b>	<b>Nifer yr achosion ar hyn o bryd (yn cynnwys %)</b>	<b>Tueddiadau a ragwelir (yn cynnwys %)</b>
<i>Isel/Dim</i>	<i>Tai prif ffrwd</i>	<i>Cymorth unigol</i>		
<i>Canolig</i>	<i>Tai prif ffrwd</i>	<i>Unigryw, yn debygol o gynnwys cymorth amlasiantaethol</i>		
<i>Uchel</i>	<i>Tai prif ffrwd</i>	<i>Tai yn Gyntaf/cymorth dwys fel y bo'r angen, yn cynnwys cymorth amlasiantaethol</i>		
<i>Anghenion Dwys (24/7)</i>	<i>Tai â Chymorth</i>	<i>Cymorth preswyl</i>		

*Dangos dadansoddiad o bob categori cymorth mewn gwybodaeth allweddol pan fydd ar gael, a fydd yn dibynnu ar ganfyddiadau, fel gwybodaeth am aelwydydd, demograffeg ac ati.*

*Pan fydd gwahaniaeth sylweddol rhwng tybiaethau o ran tueddiadau a niferoedd yr achosion presennol, egluro'r gwahaniaeth.*

3.3 – gofynion o ran cymorth – *Fel sy'n briodol, dadansoddi'r wybodaeth am niferoedd er mwyn dangos ble y gellir rhannu gofynion cymorth penodol rhwng y pedwar maes cymorth cyffredinol fel yr amlinellir yn y canllawiau, a throsglwyddo hyn i gynllun y Grant Cymorth Tai/cynlluniau gwariant.*

3.4 – gofynion llety – *fel yn 3.3., amlinellu cyfran y gofynion llety yn seiliedig ar y gofynion llety allweddol a amlinellir yn y canllawiau a throsglwyddo hyn i gynllun y Grant Cymorth Tai/cynlluniau gwariant.*

3.5 – asesu/prif ffrydio parhaus – *disgrifio'r asesiadau o anghenion a gynhelir yn y dyfodol, yn cynnwys ehangu i gynnwys partneriaid allweddol o bosibl (lle y bo angen) neu gynnal asesiadau ar y cyd fel rhan o'r broses gychwynnol o asesu digartrefedd.*

#### Adran 4 – Deall y cyflenwad o lety dros dro lleol

4.1 - gwybodaeth sylfaenol - *rhoi trosolwg o'r cyflenwad o lety dros dro sydd ar gael (gweler y tabl enghreifftiol isod). Y wybodaeth sylfaenol fydd faint o lety dros dro sydd ar gael, llai y llety a oedd ar gael yn ystod y pandemig, na fydd ar gael ar ôl y pandemig.*

<i>Math o Lety Dros Dro</i>	<i>Capasiti Sylfaenol (Unedau ar 31/03/22)*</i>	<i>Grwpiau a dderbynnir – unrhyw eithriadau</i>	<i>Gwasanaethau sydd ar gael ar y safle</i>	<i>Taliadau gwasanaeth (I/N)</i>	<i>Nodiadau</i>
<i>Canolfannau Brysbennu (yn unol â'r diffiniad ac, o leiaf, y safonau yn Atodiad D):</i> - xxxx - xxxx					
<i>Llety Dros Dro:</i> - xxxx - xxxx					
<i>Llety â Chymorth:</i> - xxxx - xxxx					
<i>Arall (yn cynnwys llety gwely a brecwast/gwestai):</i> - xxxx - xxxx					

*\*heb gynnwys yr unedau hynny y rhagwelir y cânt eu colli ar ôl y pandemig*

4.2 – defnydd – *egluro'r defnydd presennol a'r gwahaniaeth o ran hyd arosiadau, yn ôl pob math o lety a phob uned wahanol.*

4.3 - cynhwysiant - *egluro pa grwpiau a gaiff eu heithrio (os yw'n briodol) yn ogystal â manylion y taliadau gwasanaeth a'r rhesymau y tu ôl i'r taliadau.*

## Adran 5 – Cynllunio'r broses o drawsnewid Llety Dros Dro

5.1 - gweledigaeth - defnyddio'r data a gasglwyd yn yr adran flaenorol, nodi'r blaenoriaethau trawsnewidiol dros y cyfnod pontio pum mlynedd, yn cynnwys amcanion, meysydd sydd angen gwaith ffocws, a thargedau ar gyfer hyd cyfartalog arhosiad mewn llety

5.2 – heriau allweddol – nodi'r heriau penodol mewn perthynas â ble y nodir gormod o ryw fath o lety a phrinder math arall yn ogystal ag angen i leihau maint yr unedau llety ac felly y gall safleoedd lluosog ddisodli un safle mwy ac ati.

5.3 – cynllun trawsnewid – cofnodi yn y tabl isod fanylion y trawsnewid, yn cynnwys costau amcangyfrifedig, ffynhonnell y cyllid sy'n ofynnol ac unrhyw ddatblygiad newydd perthnasol.

<i>Enw'r llety</i>	<i>Capasiti presennol uned un noson</i>	<i>Targed 2027 capasiti erbyn 2027</i>	<i>Disgrifiad byr o'r gwaith sy'n ofynnol</i>	<i>Costau Amcangyfrifedig</i>	<i>Ffynhonnell Gyllido</i>

## **Adran 6 – Datblygu'r Cynllun**

6.1 – gweledigaeth – *defnyddio'r data a gasglwyd yn yr adran flaenorol, nodi'r blaenoriaethau dros y cyfnod pontio pum mlynedd, yn cynnwys amcanion, meysydd sydd angen gwaith ffocws ac ati.*

6.2 – atal digartrefedd – *disgrifio'r heriau allweddol a nodwyd yn flaenorol a'r gweithgarwch arfaethedig mewn perthynas â gwella canlyniadau atal.*

*Darparu naratif/targedau penodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r grwpiau Atal a Dargedwyd ynghyd â mentrau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.*

6.3 – Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym – *cynnwys y broses o nodi'r heriau a'r camau gweithredu allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw, fel gwella cyflenwad o'r sector cymdeithasol a'r sector preifat, sicrhau cymorth gan bartneriaid, er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.*

6.4 – Model llety – *nodu'r model llety arfaethedig, yn cynnwys darpariaeth pob partner.*

6.5 – ymateb i'r pandemig – *nodu'r mesurau dros dro i'w hystyried er mwyn cefnogi effaith fyrdymor y pandemig.*

6.6 - *asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol/effaith ar gydraddoldeb - cynnwys eich asesiad cychwynnol o'r effaith ar wasanaethau i bobl o bob grŵp demograffig. Bydd asesiad mwy cynhwysfawr yn ofynnol yn ddiweddarach.*

6.7 – ystyriaethau eraill – *cynnwys y meysydd hynny nad ydynt wedi'u cwmpasu eisoes uchod*

## **Adran 7 – Cynllunio Adnoddau**

7.1 - adnoddau presennol - *amlinellu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf a chynnwys yr ystod lawn o adnoddau. Cynnwys adnoddau referiw a chyfalaf Llywodraeth Cymru yn ogystal ag arloesedd amgen neu ffrydiau cyllido.*

7.2 - staffio - *cynnwys gwybodaeth sylfaenol am lefelau staffio presennol fel rhan o'r gwasanaeth, yn cynnwys gwasanaethau allweddol a gaiff eu rhoi ar gontract allanol neu a gaiff eu darparu gan bartneriaid. Rhoi syniad cychwynnol o'r modd y gallai lefelau staffio yn y gwasanaeth newid yn ystod y broses bontio i gefnogi'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau a nodwyd eisoes yn y cynllun.*

7.3 – blaenoriaethau – *esbonio pob blaenoriaeth allweddol yn fanwl, i gynnwys amserlenni a chostau, a chroesgyfeirio blaenoriaethau i'r adrannau blaenorol.*

7.4 – cynllun adnoddau – *cynnwys tabl manwl sy'n dangos y modd y bydd yr adnoddau ariannol yn newid yn ystod y cyfnod pontio pum mlynedd a chysylltu â gweithgareddau a themâu.*